

COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Y CABINET

DYDD MERCHER, 1 MAWRTH 2023

Cabinet Members:

Cynghorwyr:: S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle, N.Jenkins, D.M.Peters, J.Hurley, S.Harris, A.Llewelyn, W.F.Griffiths a/ac S.Jones

Swyddogion yn bresennol:

N.Pearce, C.Griffiths, K.Jones, A.Jarrett, C.Furlow-Harris, N.Blackmore, H.Jones, C.Owen, A.James, ac T.Davies

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cynghorydd S K Hunt bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5. CYNIGION CYLLIDEB REFENIW 2023/2024

Penderfyniadau:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig:

1. Bod y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/2024 fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddsbarthwyd, yn cael ei gymeradwyo.
2. Bod ffioedd a thaliadau ar gyfer swyddogaethau gweithredol yn cael eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet perthnasol, a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol a

bod angen pennu ffioedd a thaliadau ar gyfer swyddogaethau gweithredol sy'n berthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/2024 sy'n berthnasol mewn unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.
3. Bod y ffioedd a thaliadau ar gyfer swyddogaethau anweithredol yn cael eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd y Pwyllgor Anweithredol perthnasol a

bod angen pennu ffioedd a thaliadau ar gyfer swyddogaethau anweithredol sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol, cyn y flwyddyn ariannol honno am resymau gweithredol.
4. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Swyddog Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol i wneud unrhyw welliant angenrheidiol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol o ganlyniad i unrhyw amrywiad rhwng taliad terfynol Llywodraeth Cymru a'r taliad dros dro.
5. Bod Treth y Cyngor yn cynyddu 4.5% yn 2023/2024. Bod y swm cyfatebol ar gyfer Band D Treth y Cyngor 1,737.72/2021 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o £1,737.72, yn cael ei argymhell i'r cyngor i'w gymeradwyo.

Rheswm dros y Penderfyniad

Er mwyn cyflawni'r gofyniad statudol i bennu'r gyllideb ar gyfer 2022/2023.

Darparu dull ar gyfer ymdrin ag unrhyw amrywiad rhwng setliadau dros dro a therfynol Llywodraeth Cymru.

Cytuno ar drefniadau ar gyfer gosod ffioedd a thaliadau.

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl iddo gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y cyngor.

6. **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2023/2024 I 2025/2026**

Penderfyniadau:

Bod y canlynol yn cael ei argymhell i'r cyngor i'w cymeradwyo:

- Y Strategaeth Gyfalaf
- Y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/2024 i 2025/2026 fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.
- Y trefniadau dirprwyo fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod yn unol â'r Cyfansoddiad.

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl iddo gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y cyngor.

7. **STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDI FLYNYDDOL A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW**

Penderfyniadau:

Bod y strategaethau a'r polisiau canlynol, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu cyflwyno i'r cyngor i'w cymeradwyo:

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Strategaeth Buddsoddi Flynyddol
- Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw
- Dangosyddion Darbodus

Rheswm dros y Penderfyniad:

Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi Flynyddol, Strategaeth Gyfalaf a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yr awdurdod fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (2017).

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Rhoddir y penderfyniad ar waith ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Craffu'r Cabinet ac wedi i benderfyniad gael ei wneud gan y cyngor.

8. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

CADEIRYDD